# Y Pwyllgor Deisebau – Papur Briffio

## *PET(3)-13-10: 2 Tachwedd 2010*

**Rhan 1: Sesiynau tystiolaeth: Darpariaeth dysgu seiliedig ar waith ar gyfer pobl ifanc sy'n agored i niwed**

**Sesiwn dystiolaeth 1 – y Gweinidog dros Blant, Addysg a Dysgu Gydol Oes**

Bydd y Pwyllgor yn casglu tystiolaeth gan y tystion a ganlyn fel rhan o'i ymchwiliad i ddysgu seiliedig ar waith ar gyfer pobl ifanc sy'n agored i niwed:

- Leighton Andrews, y Gweinidog dros Blant, Addysg a Dysgu Gydol Oes
- Teresa Holdsworth, Dirprwy Gyfarwyddwr yr Is-adran Busnes a Sgiliau, Llywodraeth Cynulliad Cymru
- Andrew Clark, Dirprwy Gyfarwyddwr Dros Dro, Polisi Addysg Uwch ac Addysg Bellach, Llywodraeth Cynulliad Cymru
- Caroline Turner, Dirprwy Gyfarwyddwr, Gwasanaethau Arbenigol

Cynhelir yr ymchwiliad hwn yn sgìl ystyriaeth y Pwyllgor o ddeiseb a gyflwynwyd gan Gweithredu dros Blant.

Bydd y Gweinidog hefyd yn ateb cwestiynau yn ymwneud â'r ddeiseb P-03-170, sef deiseb a gynigwyd gan MENCAP Cymru i gynyddu nifer y bobl ag anableddau dysgu a gyflogir gan y sector cyhoeddus yng Nghymru.

Mae'r tystion wedi darparu gwybodaeth ychwanegol sydd wedi'i chynnwys yn atodiad 1.

**Sesiwn dystiolaeth 2 – Y Ganolfan Byd Gwaith a'r Adran Gwaith a Phensiynau**

Bydd y Pwyllgor yn casglu tystiolaeth gan y tystion a ganlyn fel rhan o'i ymchwiliad i ddysgu seiliedig ar waith ar gyfer pobl ifanc sy'n agored i niwed:

- Linda Badman, Cyfarwyddwr Canolfan Byd Gwaith Cymru
- June Price, Rheolwr Cyswllt/Rheolwr Cronfa Swyddi'r Dyfodol Llywodraeth Cynulliad Cymru, Canolfan Byd Gwaith Cymru
- Rowan Foster, yr Is-adran Cyflogaeth Pobl Ifanc, yr Adran Gwaith a Phensiynau

Mae'r tystion wedi darparu gwybodaeth ychwanegol sydd wedi'i chynnwys yn atodiad 1.

**P-03-270 - Gweithredu dros Blant**

**Geiriad y ddeiseb**

> Rydym yn galw ar Gynulliad Cenedlaethol Cymru i annog Llywodraeth Cymru i ddarparu mwy o leoliadau dysgu seiliedig ar waith sy'n fwy addas ar gyfer anghenion y bobl ifanc hynny sy'n fwy agored i niwed, ac sy'n eu symud ymlaen o ddifrif gan sicrhau eu bod yn ennill cymhwyster NVQ2 o leiaf. Yn benodol, byddem yn hoffi gweld rhagor o ddarpariaeth ar gyfer pobl ifanc ddigartref sydd am gael hyfforddiant ac nad ydynt yng ngofal awdurdod lleol.

**Linc i'r ddeiseb:** http://www.cynulliadcymru.org/gethome/e-petitions-old/admissible-pet/p-03-270.htm

**Cynigwyd gan:** Action for Children / Gweithredu dros Blant

**Nifer y llofnodion:** 1 (cyflwynwyd y ddeiseb gan y sefydliad yn ei gyfanrwydd)

**Ystyriwyd eisoes gan y Pwyllgor ar:** 19 Ionawr, 23 Mawrth, 11 Mai, 25 Mai, 15 Mehefin, 29 Mehefin, 28 Medi a 12 Hydref 2010.

**P-03-170 MENCAP Cymru - Deiseb i gynyddu nifer y bobl ag anableddau dysgu a gyflogir gan y sector cyhoeddus yng Nghymru.**

**Geiriad y ddeiseb**

> Yr ydym yn galw ar Gynulliad Cenedlaethol Cymru i annog Comisiwn y Cynulliad a Llywodraeth Cynulliad Cymru i arwain gyda golwg ar gyflogi mwy o bobl ag anableddau dysgu, ac i annog cyflogwyr eraill yn y sector cyhoeddus, megis y Gwasanaeth Iechyd Gwladol ac Awdurdodau Lleol, i gyflogi mwy o bobl ag anableddau dysgu.
>
> Dim ond 1 o bob 10 o bobl ag anableddau dysgu y mae arnynt eisiau gweithio sydd mewn unrhyw fath o gyflogaeth lle rhoddir tâl. Mae hyn yn annheg.

**Linc i'r ddeiseb:** http://www.cynulliadcymru.org/gethome/e-petitions-old/eform-sign-petition-old/p-03-170.htmP-03-170%20-%20I%20gynyddu%20nifer%20y%20bobl%20ag%20anableddau%20dysgu%20a%20gyflogir%20gan%20y%20sector%20cy

**Cynigwyd gan:** MENCAP Cymru

**Nifer y llofnodion:** 134

**Ystyriwyd eisoes gan y Pwyllgor ar:** 13 Ionawr, 10 Chwefror, 19 Mai, 7 Gorffennaf, 22 Medi a 10 Tachwedd 2009; a 15 Mehefin a 28 Medi 2010.

## Rhan 2: Deisebau newydd

Mae'r rhan hon yn rhoi gwybodaeth gefndir am y deisebau y bydd y Pwyllgor yn rhoi ystyriaeth gychwynnol iddynt ar 2 Tachwedd 2010.

### 1. P-03-303 Yn Erbyn Bwlio Homoffobig

### Geiriad y ddeiseb

> Rydym ni sydd wedi llofnodi isod, yn galw ar Gynulliad Cenedlaethol Cymru i annog Llywodraeth Cymru i gyhoeddi canllawiau gorfodol i ysgolion (ffydd, gwladol neu breifat) ynghylch bwlio homoffobig. Rydym yn annog yn gryf y dylai newidiadau ddigwydd yn fuan ac ar unwaith.

### Cefndir

Cynigwyd y ddeiseb hon gan Oliver Townsend, a chasglwyd 440 o lofnodion erbyn 26 Hydref. Yn unol â gweithdrefnau'r Pwyllgor, mae'r Cadeirydd wedi ysgrifennu at y Gweinidog dros Blant, Addysg a Dysgu Gydol Oes. Ceir copi o'r llythyr hwn isod.

## Y Pwyllgor Deisebau

## Petitions Committee



Leighton Andrews AC/AM
Minister for Children, Education and Lifelong Learning
Welsh Assembly Government
Cardiff Bay
Cardiff
CF99 1NA



Bae Caerdydd / Cardiff Bay
Caerdydd / Cardiff CF99 1NA


Our ref: P-03-303

27 October 2010

**P-03-303 Against Homophobic Bullying**

The Petitions Committee has received a petition from Oliver Townsend which had collected 440 signatures by 26 October:

> We, the undersigned, call on the National Assembly of Wales to urge the Welsh Government to issue compulsory guidance to all schools (faith, state or private) concerning homophobic bullying. We strongly urge that changes are implanted quickly and urgently.

The committee would like to know your views on the issues raised by the petition and would particularly like to hear whether you plan to introduce any compulsory guidance for schools addressing the issue of homophobic bullying.

Many thanks for your consideration of this petition.

Yours sincerely

**Christine Chapman AM**
**Chair, Petitions Committee**

## 2. P-03-304 Gwelliant i’r Mesur ynghylch Teithio gan Ddysgwyr (Cymru) 2008

### Geiriad y ddeiseb

> Rydym ni, sydd wedi llofnodi isod, yn galw ar Gynulliad Cenedlaethol Cymru i annog Llywodraeth Cymru i ddiwygio’r Mesur ynghylch Teithio gan Ddysgwyr (Cymru) 2008, fel bod y diffiniad o’r ysgol addas agosaf i’r diben o ddarparu cludiant am ddim/â chymhorthdal yn cynnwys cyfeiriad at y ffaith fod yr ysgol yn darparu’r Cwricwlwm Cymreig.

### Cefndir

Cynigwyd y ddeiseb hon gan y Cynghorydd Arfon Jones, a chasglwyd 17 o lofnodion erbyn 26 Hydref. Yn unol â gweithdrefnau’r Pwyllgor, mae’r Cadeirydd wedi ysgrifennu at y Dirprwy Brif Weinidog. Ceir copi o’r llythyr hwn isod, ynghyd â gwybodaeth ychwanegol a ddarparwyd gan y deisebydd.

## Y Pwyllgor Deisebau

## Petitions Committee

Ieuan Wyn Jones AC/AM
Deputy First Minister
Welsh Assembly Government
Cardiff Bay
Cardiff
CF99 1NA

Bae Caerdydd / Cardiff Bay
Caerdydd / Cardiff CF99 1NA

Our ref: P-03-304

27 October 2010

**P-03-304 Amendment to the Learner Travel (Wales) Measure 2008**

The Petitions Committee has received a petition from Councillor Arfon Jones which had collected 17 signatures by 26 October:

> We the undersigned call upon the National Assembly of Wales to urge the Welsh Government to amend the Learner Travel (Wales) Measure 2008, so that the definition of the nearest suitable school for the purposes of provision of free/subsidised transport includes a reference to the fact that it provides the Welsh Curriculumn/Cwricwlwm Cymreig.

The petitioner provided additional information which is included below. The Committee would welcome your views on the issues raised by the petition, and specifically, if the Welsh Government plan to propose any amendments to the Learner Travel (Wales) Measure 2008.

Many thanks for your consideration of this petition.

Yours sincerely

**Christine Chapman AM**
**Chair, Petitions Committee**

Enc: Additional information provided by the petitioner

Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1NA

Cardiff Bay
Cardiff
CF99 1NA

Ffôn / Tel: 029 2089 8998
E-bost / Email:petition@wales.gov.uk

Gwybodaeth ychwanegol:

Mae gwahaniaethau sylweddol rhwng y Cwricwlwm Cymreig a’r cwricwlwm yn Lloegr, er enghraifft, y Cyfnod Sylfaen a Bagloriaeth Cymru, a dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru a’r Cynulliad Cenedlaethol ynghyd â’r Awdurdodau Lleol yng Nghymru, geisio annog rhieni a phlant i gael eu haddysg yng Nghymru, ac os y byddant yn gwrthod, ei fod yn syml yn ddewis y rhieni ac ni ddylai Awdurdodau Lleol yng Nghymru fod o dan ddyletswydd i gludo plant i ysgolion y tu allan i Gymru’

Additional information:

There are significant differences between the Welsh Curriculum and the curriculum in England for example the Foundation phase and the Welsh Bacc and the Welsh Assembly Government and the National assembly together with Welsh Local Authorities should seek to encourage parents and children to be educated in Wales and if they decline it should be a purely parental choice and Welsh LA’s should be under no obligation to transport children to schools outside Wales

**Gwasanaeth y Pwyllgorau**
**Hydref 2010**